

Adroddiad Blynyddol 2021-2022

Fel y llynedd, mae'r Grŵp wedi bod yn eithriadol o brysur. Yn gynnar eleni, llwyddodd y Grŵp a Barcud i ennill Gwobr Cydnabyddiaeth Arbennig gan Wasanaeth Ymgynghorol Cyfranogiad Tenantiaid (TPAS) Cymru. Roedd y wobwr yn cydnabod y berthynas waith agos a'r lefel bwysig o gyfranogiad tenantiaid yng ngweithrediadau Barcud. Roedd yn anrhydedd i Barcud a'r Grŵp Monitro gael cydnabyddiaeth o'r fath, a gyda'n gilydd rydym yn parhau i nodi meysydd pellach y gallai'r Grŵp chwarae rhan ynddynt.



Yn ystod y flwyddyn hefyd, gwelwyd TPAS Cymru yn cymryd mwy o ddiddordeb yn y Grŵp Monitro a Barcud. O ganlyniad, cafodd Cadeirydd y Grŵp ei wahodd i roi sawl cyflwyniad i denantiaid ar draws Cymru ynglŷn â sut y mae'r Grŵp yn gweithio mewn partneriaeth â Barcud a beth yw manteision sicrhau bod gan denantiaid lais cryf. At hynny mae Steve Jones, Prif Weithredwr Grŵp Barcud, wedi cael ei wahodd i annerch Cynhadledd TPAS Cymru i Denantiaid ym mis Tachwedd eleni ynglŷn â phwysigrwydd cynnwys tenantiaid ac ynglŷn â manteision gwneud hynny.



Yn gynharach yn y flwyddyn cafodd Paul Clasby, ein Cadeirydd, ei enwebu gan Barcud ar gyfer Gwobr "Tenant y Flwyddyn" TPAS Cymru. Nid oedd Paul yn gwybod ei fod wedi cael ei enwebu ac roedd clywed ym mis Gorffennaf ei fod wedi ennill y wobwr yn syrpréis arall iddo. Mae Paul yn ddiolchgar i Barcud am yr enwebiad ac am y negeseuon a dderbyniodd gan staff a thenantiaid i'w longyfarch.

Drwy gydol y flwyddyn, mae swyddogion y Grŵp Monitro wedi bod yn mynychu cyfarfodydd â Bwrdd Barcud a'r Tîm Arwain. Roedd y digwyddiadau hynny'n cynnwys cyfarfodydd a oedd yn ymwneud â chynllunio busnes, adolygu amcanion strategol Barcud, cynnal yr hunanasesiad rheoleiddiol, adolygu amcanion strategol Barcud yn ystod y 5 mlynedd nesaf, ystyried cydnabyddiaeth ariannol i aelodau'r Bwrdd, a chynnal yr adolygiad bob dwy flynedd o drefniadau llywodraethu. Mae gwaith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd i weld ble y gall y Grŵp Monitro chwarae rhan bellach ar lefel y Bwrdd, ac rydym yn edrych ymlaen at weithio gyda'r Bwrdd wrth i'r trafodaethau hynny barhau.

Mae swyddogion y Grŵp Monitro wedi parhau i gwrdd yn fisol â'r Tîm Arwain (y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwyr) a'r Tîm Rheoli Gweithredol (Rheolwyr Adrannol). Mae aelodau'r ddau dîm hefyd wedi bod yn cwrdd ag aelodau'r Grŵp Monitro i gael ein barn a'n hargymhellion ynglŷn ag amrywiaeth o bynciau. Roedd y pynciau hynny'n cynnwys y polisi pennu rhenti ar gyfer eleni (2021-22), Strategaeth a Pholisi Datgarboneiddio newydd Barcud, y cytundeb tenantiaeth newydd sy'n ofynnol dan Ddeddf Rhentu Cartrefi 2016 Llywodraeth Cymru, polisïau'n ymwneud â

thenantiaid, cynigion Llywodraeth Cymru ynghylch Safon Ansawdd Tai Cymru 2023, ac adolygiad llawn o'r gwasanaeth atgyweirio y tu allan i oriau gwaith arferol.

At hynny, mae'r Grŵp Monitro wedi bod yn cymryd rhan yn ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru ynghylch Safonau Rheoleiddio arfaethedig a Safon Ansawdd Tai Cymru 2023. Hyd y gwyddom, ni yw'r unig grŵp tenantiaid yng Nghymru sy'n cyflwyno ei ymatebion ei hun yn rheolaidd i ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru. O'n safbwynt ni, mae'n hollbwysig bod barn y tenantiaid yn cael ei chlywed ochr yn ochr â barn y darparwyr tai.

Drwy gydol y flwyddyn, mae'r aelodau wedi parhau i gynnal archwiliadau ar hap o gartrefi gwag cyn eu bod yn cael eu hailosod. Creodd y Grŵp Monitro y safonau a'r rhestr archwilio, sydd wedi'u mabwysiadu gan Barcud hefyd. Gyda'n gilydd, rydym yn ceisio sicrhau bod popeth y mae angen iddo gael ei wneud yn cael ei wneud cyn bod tenant newydd yn symud i mewn i eiddo. At hynny, roedd yr aelodau'n falch o ailafael yn ein harchwiliadau rheoli ystadau, a gynhelir ar y cyd ag aelodau o staff. Diben yr archwiliadau hyn yw sicrhau bod ein hystadau'n cael eu cynnal a'u cadw yn dda ac nad ydynt yn cynnwys unrhyw beth a allai fod yn beryglus. Mae'r aelodau wedi bod yn archwilio ystadau yn Aberteifi, Aberystwyth, y Drenewydd a Llanandras, ac os cafodd unrhyw waith angenrheidiol ei nodi mae Barcud wedi gweithredu ar ei sail. Y Grŵp Monitro a greodd y safonau a'r rhestr archwilio ar gyfer archwiliadau rheoli ystadau'n ogystal, ac mae'r rheini hefyd wedi'u mabwysiadu gan Barcud.



Eleni, mae'r Grŵp wedi cynnal dau gyfarfod o Fforwm Cyswllt y Tenantiaid. Cafodd y cyfarfod cyntaf ei gynnal ym mis Mawrth ar-lein, gyda'r Tîm Arwain yn bresennol i ateb unrhyw gwestiynau a allai fod gan y tenantiaid. Cafodd yr ail gyfarfod, sef ein cyfarfod wyneb yn wyneb cyntaf, ei gynnal ym mis Gorffennaf yng Nghlwb Pêl-droed Aberystwyth. Hwn oedd y tro cyntaf hefyd i aelodau'r Grŵp Monitro gael cyfle i gwrdd wyneb yn wyneb ers i'r Grŵp gael ei greu ym mis Tachwedd 2020. Roedd yn wych gweld cymaint yn bresennol, a chafodd y sawl a oedd yno ddiweddariad ynghylch Deddf Rhentu

Cartrefi Cymru 2016 a Strategaeth Ddatgarboneiddio Barcud a diweddariad gan Steve Jones, Prif Weithredwr Grŵp Barcud. Adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, mae'r Grŵp wrthi'n paratoi ar gyfer Cynhadledd Barcud i Denantiaid, a fydd hefyd yn cael ei chynnal wyneb yn wyneb yng Nghlwb Pêl-droed Aberystwyth ar 20 Hydref. Thema'r gynhadledd yw "Barcud Yma i Helpu" a bwriedir canolbwyntio ar yr argyfwng "Costau Byw" presennol.

Ar wahân i fynychu cyfarfodydd misol rheolaidd y Grŵp, mae'r aelodau wedi bod yn mynychu llwyth o ddiwyddiadau gyda thenantiaid eraill o bob cwr o Gymru. Mae'r digwyddiadau hynny wedi'u cynnal gan TPAS Cymru ac roeddent yn amrywio o ddiwyddiadau'n ymwneud ag agenda "Sero Net" Llywodraeth Cymru i'r argyfwng "Costau Byw". Mae bob amser yn ddi-ddorol clywed gan gynrychiolwyr tenantiaid eraill am yr hyn y maen nhw'n ei wneud, a chael cyfle ar yr un pryd i rannu gwybodaeth â nhw am yr hyn yr ydym ni'n ei wneud yma gyda Barcud.

Nid yw'r rhestr hon yn rhestr gyflawn o weithgareddau'r Grŵp yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, ond rydym yn gobeithio ei bod yn taflu ychydig o oleuni ar yr hyn yr ydym yn ei wneud a'r modd yr ydym yn gweithio gyda Barcud fel aelod gwerthfawr o'r tîm. Rydym yn ddiolchgar i bawb yn Barcud am y pwys mawr y maent yn ei roi ar gynnwys tenantiaid yn wirioneddol yn eu gweithrediadau ar bob lefel, ac am y parch y maent yn ei ddangos tuag atom. Rydym hefyd yn ddiolchgar am y modd y maent yn hyrwyddo'r Grŵp i denantiaid newydd a thenantiaid presennol, sydd wedi cynyddu diddordeb ein cyd-denantiaid yn y Grŵp ac sydd wedi rhoi hwb i'n haelodaeth.



Dyletswydd arall sydd yr un mor bwysig yw'r angen i ddiolch i aelodau'r Grŵp am eu hymroddiad difflino i'n cyd-denantiaid ac i Barcud, am yr amser y maent yn ei roi o'u gwirfodd i gyflawni ein holl weithgareddau ac am eu barn amrywiol, sydd o'r pwys mwyaf. Hoffem ddiolch yn arbennig i Sue Thomas (Uwch Swyddog Cynnwys Tenantiaid) am ei chymorth a'i pharch cyson ac am y modd y mae'n ymfalchïo gyda ni yn yr hyn yr ydym yn ei gyflawni.

Yn olaf, hoffem nodi bod yna ffyrdd eraill heblaw'r Grŵp Monitro y gallwch ymwneud â Barcud. Os ydych yn byw yn un o gynlluniau tai gwarchod Barcud, gallwch ymwneud â'r "Fforwm Cynlluniau Tai Gwarchod". Os hoffech gymryd rhan, ond i raddau llai na'r Grŵp Monitro, gallwch hefyd ymuno â "Pawb: Y Fforwm Cartrefi". Os hoffech gael gwybod mwy am y fforymau hyn, mae croeso i chi gysylltu â Sue Thomas neu Alisa Cakebread drwy ffonio 0300 111 3030 neu anfon ebost i post@barcud.cymru.